OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 713 (Cy. 191) (C. 51)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2016

*Gwnaed - - - - 5 Gorffennaf 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 188 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2016.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

### Y diwrnod penodedig

**2.**—(1) Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym at y diben a bennir ym mharagraff (2) yw 11 Gorffennaf 2016—

(a) adran 67 (Gofal Cymdeithasol Cymru);

(b) adran 68 (amcanion GCC);

(c) adran 73(1) a (2) (rheolau: cyffredinol);

(d) adran 75 (ymgynghori cyn gwneud rheolau etc.).

(2) Mae'r darpariaethau ym mharagraff (1) wedi eu dwyn i rym i'r graddau sy'n ofynnol, ac at ddiben galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni ei ddyletswydd i ymgynghori o dan adran 75(2) o'r Ddeddf yn effeithiol.

(**1**) 2016 dccc 2.

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

5 Gorffennaf 2016

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r ail Orchymyn Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"). Mae'n cychwyn darpariaethau penodol yn y Ddeddf at ddiben penodol ar 11 Gorffennaf 2016.

Mae adran 75(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ("GCC") gydymffurfio â gofynion penodol yn is-adran (2) cyn gwneud rheolau, cyhoeddi cod ymarfer a chyhoeddi canllawiau.

Mae erthygl 2 yn cychwyn darpariaethau penodol o'r Ddeddf ond dim ond at ddiben galluogi GCC i gydymffurfio â'r gofynion yn adran 75(2) o'r Ddeddf. Y darpariaethau hynny yw—

(a) adran 67 sy'n ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn Ofal Cymdeithasol Cymru;

(b) adran 68 sy'n nodi prif amcan GCC wrth gyflawni ei swyddogaethau;

(c) adran 73(1) a (2) sy'n sefydlu bod rhaid i reolau gael eu gwneud yn ysgrifenedig a bod rhaid i'r offeryn sy'n cynnwys y rheolau bennu'r ddarpariaeth y gwneir y rheolau odani;

(d) adran 75 sy'n gosod dyletswydd ar GCC i gydymffurfio â gofynion ymgynghori penodol cyn gwneud rheolau.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf hon wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Paragraff 59 o Atodlen 3 | 6 Ebrill 2016 | 2016/467 (Cy. 149) (C. 28) |
| Paragraffau 60 i 65 o Atodlen 3 | 6 Ebrill 2016 | 2016/467 (Cy. 149) (C. 28) |